



Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Craffu ar Gyllideb Ddrafft

Llywodraeth Cymru 2026-27

Cynnwys

Newid Hinsawdd	3
Diogelwch tomenni glo a chronfeydd dŵr	4
Cyfoeth Naturiol Cymru	6
Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol	7
Yr Economi Gylchol	8
Y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	9
Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr	9
Bioamrywiaeth	10
Targed natur 30 erbyn 30	10
Cronfa Rhwydweithiau Natur a buddsoddiad preifat	11
Bwlch sgiliau ecolegol	14
Morwellt a morfa heli	15
Atodiadau	17

Newid Hinsawdd

Argymhelliad 1:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y presennol a'r dyfodol o ran cynyddu lefelau cyllid i gynyddu'r gwaith o addasu i'r hinsawdd, yn enwedig drwy fuddsoddiad preifat, a sut mae'r cynlluniau hynny'n cyd-fynd â'r egwyddorion buddsoddi cynaliadwy.

Ymateb: Derbyn

Gweinidogion portffolios unigol sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o gyllid ar gyfer gweithgarwch addasu i'r hinsawdd. Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o broses y Gyllideb bob blwyddyn. Hefyd, mae Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru yn nodi'r camau gweithredu y mae arweinwyr yn eu cymryd ar draws gwahanol bortffolios i archwilio a sicrhau'r cyllid sydd ei angen i sicrhau Cymru sydd wedi'i haddasu'n dda, gan gynnwys buddsoddiad preifat. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn drwy ein cyhoeddiadau ar y Gyllideb, yn ogystal â thrwy ddiweddariadau yn erbyn y Strategaeth. Hefyd, byddwn yn parhau i sicrhau bod gwaith ar gyllid addasu ar draws portffolios, gan gynnwys ar fuddsoddiad preifat, yn cyd-fynd â'n gwaith ar yr egwyddorion buddsoddi cynaliadwy ac yn dysgu ohono.

Goblygiadau ariannol – mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn, drwy broses y Gyllideb.

Argymhelliad 2:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n blaenoriaethu ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur wrth addasu i newid hinsawdd, a sicrhau lefelau digonol o gyllid at y diben hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi ymrwymo i ehangu ein defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur i ddarparu ystod o wasanaethau ecosystem o atafaelu carbon i hidlo dŵr i liniaru perygl llifogydd.

Rydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn plannu coed, er mwyn helpu i lliniaru newid hinsawdd a chefnogi bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr ac aer. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu digon o gyllid drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i blannu o leiaf 21,500ha o goed drwy'r cynllun erbyn 2030. Mae cyngor diweddaraaf y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cynnwys argymhelliad y dylai Cymru blannu 22,000 hectar o goetir erbyn 2030, a 208,000 hectar erbyn 2050, yn ogystal â 766 hectar o amaeth-goedwigaeth bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried goblygiadau'r cyngor hwn ar gyfer rôl coed a choetir wrth gyfrannu at gyflawni llwybr sero net Cymru.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn adfer cynefinoedd mawndiroedd Cymru drwy ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd gan wella eu gallu i

storio a diogelu carbon, rhoi hwb i fioamrywiaeth a rheoleiddio'r cyflenwad dŵr drwy'r dalgylch. Cyhoeddwyd ail gam y **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (2025-30)** ar 5 Rhagfyr 2025, Diwrnod Priddoedd y Byd. Mae hyn yn gosod targed o gynyddu'r gyfradd adfer flynyddol o 600ha y flwyddyn i 1,800ha y flwyddyn erbyn diwedd 2030. Mae targed cronol o 5,000ha wedi'i osod ar gyfer cyfnod y Rhaglen. Mae £5.2 miliwn o gyfalaf a £0.55 miliwn o refeniw wedi'u dyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

Bydd ein gwaith i ddatblygu fframwaith cyllid natur yn ceisio defnyddio cyllid o ystod o ffynonellau i gynyddu'r adnoddau er mwyn lleihau effeithiau newid hinsawdd ac adeiladu gwydnwch. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ariannol, meithrin gallu a chydweithio.

Goblygiadau ariannol - mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn fel y disgrifir uchod.

Diogelwch tomenni glo a chronfeydd dŵr

Argymhelliad 3:

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o ba domenni a gafodd gymorth gan y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo yn 2025-26, gan gynnwys swm y cyllid a gafwyd a chategori'r domen. Dylai hefyd egluro cyfanswm dyraniad y cynllun grant ar gyfer 2026-27, gan gynnwys y nifer a ragwelir o domenni nas defnyddir a fydd yn elwa ar waith cynnal a chadw ac adfer, eu lleoliad a'u categori.

Ymateb: Derbyn

Dadansoddiad o domenni 2025-26

Mae dadansoddiad o'r tomenni a gafodd gymorth gan y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo ym mlwyddyn ariannol 2025-26, ynghyd â swm y cyllid a gafwyd a chategori'r domen, wedi'u hatodi yn Atodiad A.

Dyraniadau ar gyfer y cynllun grant yn 2026-27

Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y cynllun grant yn 2026-27 fydd £39.4miliwn. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad Llywodraeth y DU o £31miliwn ar gyfer 2026-27. Bydd y cyllid yn cael ei ddosbarthu yn y dyraniad cyntaf o grant aml-flwyddyn tair blynedd, a hoffwn gydnabod cyfraniad Llywodraeth y DU, sydd wedi ymrwymo £25 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon a £118 miliwn arall dros y tair blynedd nesaf, gan ddod â chyfanswm buddsoddiad y DU i £143 miliwn.

O'i gyfuno â chyllid Llywodraeth Cymru, mae hyn yn golygu bod mwy na £230 miliwn bellach wedi'i ymrwymo i ddiogelwch tomenni glo ledled Cymru ac mae'n adlewyrchu'r realiti bod y tomenni hyn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn datganoli a bod y cyfrifoldeb i fynd i'r afael â nhw yn cael ei rannu.

Mae'r grant aml-flwyddyn yn hanfodol. Bydd yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio, datblygu a chyflawni cynlluniau mwy o faint a mwy cymhleth a galluogi gwaith ar 400 a mwy o safleoedd ledled Cymru.

Mae'r tomenni nas defnyddir a fydd yn elwa ar waith cynnal a chadw ac adfer, ynghyd â'u categori a'u lleoliad, wedi'u hatodi yn Atodiad B.

Goblygiadau ariannol - mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn .

Cyfoeth Naturiol Cymru

Argymhelliad 4:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y benthyciad i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cynllun talu y cytunwyd arno. Dylai hefyd nodi sut bydd yn monitro ac yn gwerthuso unrhyw effaith ar gyflawni swyddogaethau craidd a dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ymateb: Derbyn

Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, daliad o £19 miliwn, mewn perthynas â'r atebolrwydd IR35, i CThEF ym mis Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, ac ar ôl datrys y mater hwn rhwng CThEF a Cyfoeth Naturiol Cymru, gostyngwyd y setliad atebolrwydd i £14.6m. Mae CThEF wedi dychwelyd y taliad sy'n weddill ar y cyfrif i Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn ei dro yn dychwelyd hwn i Lywodraeth Cymru.

Cytunwyd ar drefniadau lleihau'r gyllideb gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddechrau ym mlwyddyn ariannol 2025/26, i adennill yr arian parod sy'n weddill a'r yswiriant cyllidebol a ddarperir.

Mae sgysiau rheolaidd, wedi'u trefnu ymlaen llaw yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys sgysiau am berfformiad/cyflawni bob chwarter rhwng y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a Chadeirydd y sefydliad, rhwng uwch swyddogion a Phrif Swyddog Gweithredol dros dro y sefydliad lle mae unrhyw risgiau/materion sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni swyddogaethau craidd a dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu codi, eu trafod a'u rheoli.

Goblygiadau ariannol – Dim. Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith o gyflawni swyddogaethau craidd a dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

Argymhelliad 5:

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol cyn diwedd y Chweched Senedd.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP) wedi gweld gwerth £291m o fuddsoddiad crynodedig dros bum mlynedd. Unwaith y bydd yr holl gynlluniau adeiladu wedi'u cwblhau, bydd y 15 cynllun a ariennir o amgylch arfordir Cymru o fudd i bron i 14,000 o eiddo. Roedd 11 cynllun wedi'u cwblhau erbyn mis Ionawr 2026, tra bod pedwar cynllun yn parhau i gael eu hadeiladu (Llandudno, Bae Cinmel, Ffordd Rover Caerdydd a Gerddi Cae Glas Abermaw), gyda'r disgwyl y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2026 a 2027.

Roedd cyflawni cynlluniau adeiladu yn wynebu heriau sylweddol oherwydd cyfres o ddigwyddiadau digynsail. Ddechrau 2020, achosodd stormydd difrifol (Ciara, Dennis a Jorge) lifogydd a tharfu eang ledled Cymru. Yn fuan wedyn, fe wnaeth y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud a ddaeth yn sgil hynny darfu'n aruthrol ar y diwydiant adeiladu. Cododd cymhlethdodau pellach yn 2022 gyda rhyfel Wcráin, a sbardunodd broblemau cyflenwi olew a nwy byd-eang, gan sbarduno chwyddiant tanwydd a chostau cynyddol ar draws y sector. Gan gydnabod yr amgylchiadau eithriadol hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru estyniadau er mwyn caniatáu i gynlluniau ddechrau erbyn mis Mawrth 2024 gyda'r nod o liniaru effaith y ffactorau allanol hyn a helpu i gyflawni'r gwaith er gwaethaf yr amgylchedd heriol.

Ar ôl cwblhau'r cam adeiladu ar gyfer unrhyw gynllun, rhaid i awdurdodau lleol hefyd ddatrys unrhyw broblemau gyda chontractwyr cyn cyflwyno cyfrifon terfynol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl i'r mwyafrif o gynlluniau fod wedi cwblhau'r broses hon erbyn haf 2026, a byddwn yn dechrau ein hadolygiad o'r Rhaglen CRMP bryd hynny. Ar yr un pryd, byddwn yn cysylltu ag Awdurdodau Rheoli Risg ynghylch datblygu rhaglen ariannu newydd ar gyfer cynlluniau rheoli perygl llifogydd mawr yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol - mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn .

Yr Economi Gylchol

Argymhelliad 6:

Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y dyraniadau penodol o fewn y BEL, a rhagor o wybodaeth am gyfleoedd economaidd, gan gynnwys faint sy'n cael ei wario ar fentrau a gwasanaethau ymgynghori i gefnogi'r newid i economi gylchol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n monitro a gwerthuso ei buddsoddiad.

Ymateb: Derbyn

Amlinellwyd manylion gwariant yn erbyn BEL 2190 yn Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Gyllideb Ddrafft 2026-27, Atodiad 1. Dyma'r ddolen: -

[Cyllideb Ddrafft 2026-2027: tystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd - Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Tachwedd 2025](#)

Mewn perthynas â'r cyfleoedd economaidd a swyddi, mae'r rhai sy'n gysylltiedig â symud i Economi Gylchol yn sylweddol, gyda McKinsey¹ yn amcangyfrif budd economaidd net blynyddol i Ewrop o hyd at €1.8 triliwn ac asesiad gan WRAP yn 2021³ yn amcangyfrif y byddai tua 90,000 o swyddi newydd net yn cael eu creu, hwb o tua £82 biliwn i GYC, a gostyngiad o tua 34 miliwn tonnell o CO₂e y flwyddyn ar gyfer y DU gyfan. Wrth gefnogi'r pontio i economi gylchol fel blaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwasanaethau arbenigol gan sefydliadau sy'n darparu cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, gan helpu i wella cyfraddau ailgylchu a llywio polisïau newydd fel Ailgylchu yn y Gweithle a Chyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer pecynwaith. Darperir cymorth hefyd i sefydliadau sy'n hwyluso aildδοςbarthu bwyd dros ben, yn hyrwyddo gweithgareddau atgyweirio ac ailddefnyddio, ac yn darparu ymchwil a gwerthuso pwysig, megis adolygu effeithiolrwydd gweithgareddau atgyweirio ac ailddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso ei chyllid i gefnogi'r pontio i economi gylchol drwy adolygiadau rheolaidd, gwerthusiadau annibynnol a gwaith ymgysylltu parhaus â phartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn llywio gwaith cyflawni parhaus ac yn datblygu polisi yn y dyfodol i sicrhau bod y buddsoddiad yn cefnogi'r pontio i economi gylchol.

Goblygiadau ariannol - Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn

Y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Argymhelliad 7:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â chyflawni cynlluniau ailgylchu cymhleth awdurdodau lleol ac asesu sut gellir cymhwyso'r canfyddiadau i wella'r gwaith o gyflawni prosiectau yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd ag Awdurdodau Lleol, partneriaid cyflawni arbenigol a rhanddeiliaid perthnasol i gasglu ystod eang o fewnbwn i wella'r gwaith o gyflawni prosiectau yn y dyfodol yn barhaus. Ar ben hynny, mae'r gefnogaeth arbenigol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn sicrhau y gall Awdurdodau Lleol elwa ar y gwersi a ddysgwyd wrth gyflawni gwelliannau mewn mannau eraill ledled Cymru.

Goblygiadau ariannol - Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn

Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

Argymhelliad 8:

Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei rôl wrth bennu dyraniadau cyllid Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a sut fydd taliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ategu cyllid presennol fel y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.

Ymateb: Derbyn

Mae Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) 2024 yn pennu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyflawni'r cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer pecynwaith (pEPR) yn weithredol. Gweinyddwr penodedig y cynllun yw PackUK, sy'n gweithredu'r cynllun ar ran pob un o'r pedair llywodraeth. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i PackUK weinyddu'r asesiad o gostau awdurdodau lleol, asesu ffioedd cynhyrchwyr, gan gynnwys eu modiwlleiddio, casglu ffioedd gan gynhyrchwyr a dosbarthu cyllid i awdurdodau lleol.

Mae fframwaith llywodraethu sefydledig ar waith rhwng y pedair llywodraeth a PackUK, gan gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae'r dyraniadau cyllid o'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr at ddiben cyfreithiol clir, i ariannu'r costau o ddarparu gwasanaeth rheoli gwastraff effeithiol ac effeithiol ar gyfer pecynwaith. Fodd bynnag, diben y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yw helpu i wella gwasanaethau.

Goblygiadau ariannol – Dim

Bioamrywiaeth

Targed natur 30 erbyn 30

Argymhelliad 9:

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r dyraniadau cyllideb ar gyfer bioamrywiaeth. Dylai nodi sut bydd y dyraniad hwn yn hyrwyddo cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth byd-eang 2030. Gan ystyried y ffaith ein bod yn debyg o fethu'r targed 30 erbyn 30, dylai'r llywodraeth ystyried cynyddu dyraniadau ar gyfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfwng natur.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae dros £36m yn cael ei ddyrannu at fudd uniongyrchol i fioamrywiaeth yn 2026-27 drwy fentrau fel y Rhwydweithiau Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ac mae hefyd yn cefnogi adferiad rhywogaethau drwy Natur am Byth.

Mae'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn canolbwyntio'n arbennig ar wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig, gan greu rhwydweithiau ecolegol gwydn sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y targed 30 erbyn 30 a thargedau Bioamrywiaeth Byd-eang ehangach.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn darparu cymorth ychwanegol sylweddol a bydd yn fecanwaith allweddol drwy'r elfennau cyffredinol, opsiynol a chydweithredol wrth helpu i gyflawni ein canlyniadau bioamrywiaeth, gan gynnwys y targed 30 erbyn 30.

Mae'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi'i hailwampio i flaenoriaethu prosiectau sy'n cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth mesuradwy. Yn ganolog i'r dull hwn mae nodi a datblygu safleoedd Naturfa a Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn, sy'n gwasanaethu fel mecanweithiau craidd ar gyfer cyflawni'r targed 30 erbyn 30. Mae'r camau hyn yn ategu ardaloedd gwarchodedig statudol ac yn ehangu'r lle ar gyfer natur ledled Cymru yn sylweddol.

Ar ben hynny, mae dechrau camau cyflawni ar gyfer y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig arloesol a Ffermio Bro yn gam sylweddol ymlaen, gydag ymrwymiad o £20 miliwn arall dros dair blynedd yn y cyfnodau peilot cychwynnol i gyflwyno camau gweithredu sy'n gwella bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd. Mae'r cyfnodau ar gyfer y cynlluniau yn y dyfodol wedi'u cyhoeddi, a byddant yn cefnogi gwaith ymhellach ar draws ardaloedd amaethyddol sy'n ffurfio'r mwyafrif o'r defnydd tir yng Nghymru.

Darperir cyllideb i gefnogi'r gwaith o ddatblygu targedau bioamrywiaeth fel y'u cyflwynwyd gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys datblygu targedau ar gyfer pedwar maes blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â thargedau bioamrywiaeth byd-eang, gyda chefnogaeth cyngor technegol drwy waith senarios a modelu; sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso, a pharatoi rhaglen codi ymwybyddiaeth i gefnogi'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

Er mwyn helpu i gyflawni 30 erbyn 30 o fewn bioamrywiaeth forol, mae'r Grant Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) yn darparu cyllid i gefnogi prosiectau data a thystiolaeth sy'n darparu manteision, gwelliannau neu dealltwriaeth well o nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn cefnogi rheolaeth well ac yn cynyddu gwydnwch Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru i bob math o bwysau, gan gynnwys newid hinsawdd. Yn ogystal, bydd cwblhau'r rhwydwaith MPA drwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn diogelu cynefinoedd a nodweddion sensitif ymhellach, a bydd pob un ohonynt yn cyfrannu at gyflawni'r targed 30 erbyn 30 yn yr amgylchedd morol.

Er mwyn cefnogi adfer cynefinoedd morol hollbwysig, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Prosiect Morwellt wrth ddatblygu cam 2 y Cynllun Gweithredu Morwellt (Argymhelliad 14) a chyflawni'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Morfa Heli (Argymhelliad 15).

Bydd buddsoddiad pellach o £331000 mewn meithrin gallu arfordirol, gan gysylltu pobl â phwysigrwydd yr amgylchedd morol a'u heffeithiau arno drwy lythrennedd cefnforol, a datblygu Cronfa MARINE Cymru, mecanwaith cyllid cyfunol cynaliadwy hirdymor, yn sail i'r gefnogaeth i gyflawni'r targed 30 erbyn 30 yn yr amgylchedd morol.

Byddwn yn ystyried cynnydd posibl i'r dyraniadau os bydd y cyfleoedd yn codi, ond bydd angen eu hystyried ar y cyd â blaenoriaethau cystadleuol eraill. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod pob cyllideb yn cyflawni cymaint â phosibl ar gyfer bioamrywiaeth, gan gyflawni ein dyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Goblygiadau ariannol - mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

Cronfa Rhwydweithiau Natur a buddsoddiad preifat

Argymhelliad 10:

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynyddu cyllid ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Gronfa Lleodedd Lleol ar gyfer Natur.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn elfen allweddol o'n Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gyda thros £54m wedi'i fuddsoddi yn y rhaglen yn ystod tymor y Senedd hwn.

Byddwn yn parhau i gynnal ein buddsoddiad yn y Gronfa Rhwydweithiau Natur ac yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r cyllid os byddant yn codi. Dyrannwyd £2.3m ychwanegol yn 2025 gan ganiatáu i bum prosiect arall gael eu hariannu, ac os bydd cyllid ychwanegol o'r fath ar gael eto eleni, byddem yn disgwyl bod modd cynyddu'r dyraniad yn unol â hynny.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi arian sylweddol yn y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) a byddwn yn cadw ein hymrwymiad i ystyried cyfleoedd i ddarparu cyllid ychwanegol pe bai ar gael yn ystod y flwyddyn. Yn 2025-26, cafwyd ymrwymiad ychwanegol o £2.5 miliwn i LPfN, a rhagwelir y gellid gwneud addasiadau tebyg os nodir arbedion pellach mewn mannau eraill o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfer 2026-27, mae'r dyraniadau sylweddol presennol wedi'u cadarnhau fel rhai y gellir eu rheoli gan Reolwyr Cynlluniau LPfN a sefydliadau a ariennir, gan gynnwys cyrff arweiniol y Bartneriaeth Natur Leol. Mae cynlluniau dwy flynedd bellach ar waith i gynyddu hyblygrwydd ariannu, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd cyflawni ar lawr gwlad a sicrhau gwell gwerth am arian i Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol - Bydd unrhyw gynnydd yn y flwyddyn i LPfN neu'r Rhwydweithiau Natur yn cael ei reoli o fewn cyllidebau presennol.

Argymhelliad 11:

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd Cronfa Rhwydweithiau Natur yn cael ei halinio â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys sut bydd yn gweithio'n ymarferol a sut gall ffermwyr ddefnyddio'r gronfa.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a weinyddir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri yn broses gystadleuol, gyda ffermwyr yn gallu gwneud cais yn unigol neu mewn partneriaeth lle bo hynny'n briodol.

Y bwriad yw y bydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn ategu Haen Gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ac yn wir yn fecanwaith posibl i alluogi gweithgarwch cydgysylltiedig wrth i'r Haen Gydweithredol esblygu yn ystod y Cyfnod Pontio.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i lywio'r broses o ddatblygu'r Haen Gydweithredol gan adeiladu ar fentrau fel y Gronfa Rhwydweithiau Natur, y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) a Ffermio Bro, gan ffurfio pecyn y gallai ffermwyr ei ddefnyddio i gyflawni camau gweithredu ar raddfa tirwedd gyda'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn canolbwyntio ar y Rhwydwaith Safleoedd Gwarchodedig. Bydd y gofyniad i fod â Chynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig o

dan Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu i nodi cyfleoedd o'r fath. Mae'r union fecanweithiau y gellir eu defnyddio i gydlynu / cyfuno'r ffrydiau cyllid gwahanol hyn eto i'w pennu.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 12:

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'n cynyddu arian ar gyfer natur drwy fuddsoddiad preifat, yn dilyn yr ymgynghoriad ar Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith cyllid natur ar gyfer Cymru a fydd yn darparu'r mesurau diogelu sydd eu hangen i gefnogi buddsoddiad preifat. Rydym wedi cynyddu ein gallu ac mae gennym adnodd pwrpasol sy'n canolbwyntio ar gynyddu arian ar gyfer natur. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar yr ymagwedd hirdymor strategol at gyllid cynaliadwy ar gyfer adferiad natur yng Nghymru. Bwriad y dull hwn yw cynyddu ac arallgyfeirio'r cyllid sydd ar gael fel y gallwn fynd i'r afael yn effeithiol â'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth - gan gynnwys newid hinsawdd, llygredd a rheolaeth anghynaliadwy ar adnoddau naturiol. Bydd hyn yn cynnwys cyllid gan y sector preifat, mentrau dan arweiniad y gymuned a rhoddion dyngarol.

Mae'n golygu edrych ar adnoddau ariannol o bob ffynhonnell; sicrhau hygyrchedd adnoddau mewn ffordd effeithiol, effeithlon a thryloyw; nodi'r mecanweithiau gwahanol y gallai'r sector preifat gyfrannu drwyddynt, gan gynnwys cyllid cyfunol, datblygu strategaethau cyllido, cronfeydd effaith ac offerynnau eraill sy'n annog cynnwys y sector preifat. Un enghraifft o'r fath yw Cronfa MARINE Cymru sydd wrthi'n cael ei datblygu. Bydd y gronfa wirfoddol hon yn agor ar gyfer rhoddion cyn bo hir a bydd yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella iechyd, gwydnwch a bioamrywiaeth ecosystemau morol ac arfordirol Cymru.

Rydym yn edrych ar gynlluniau cyllid arloesol, megis talu am wasanaethau ecosystem, bondiau gwyrdd, gwrthbwysio bioamrywiaeth a chredydau, a mecanweithiau rhannu buddion. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan gynlluniau o'r fath ddiogelwch amgylcheddol a chymdeithasol. Dyma pam y gwnaethom ddatblygu ein hegwyddorion buddsoddi cynaliadwy.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu safonau dan Raglen Safonau Buddsoddi Natur y BSI sy'n ceisio sefydlu fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn natur, hyrwyddo tryloywder ac atal gwyrddgalchu mewn marchnadoedd natur. Mae'r safonau hyn wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith cyson ar gyfer mesur ac adrodd ar fuddion amgylcheddol, gan sicrhau bod buddsoddiadau yn cyfrannu at ymdrechion cadwraeth ac adfer natur.

Goblygiadau ariannol – Dim

Bwlch sgiliau ecolegol

Argymhelliad 13:

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer nodi a llenwi'r bylchau capasiti a sgiliau yn y sector ecoleg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer adferiad natur. Rydym yn cydnabod rôl hanfodol y sector ecolegol, ochr yn ochr ag arbenigwyr eraill fel biolegwyr morol a gwyddonwyr, wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Cyfrifoldeb pob cyflogwr annibynnol yw recriwtio, rheoli a datblygu staff yn bennaf, fel rhai sydd yn y sefyllfa orau i nodi'r rolau cyflogedig sydd ganddynt i'w cynnig, a'r sgiliau sydd eu hangen yn y rolau hynny. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn creu gweithlu gwydn, sy'n gallu addasu i'w blaenoriaethau heddiw ac yfory, yn ogystal â heriau newydd sy'n codi. Mater allweddol i'r holl awdurdodau cyflogi fydd cael mynediad at ystod eang o lwybrau cyllido, er mwyn cefnogi eu gwaith a recriwtio, hyfforddi a chadw'r staff angenrheidiol. Nid yw dibynnu'n ormodol ar gyllid trethdalwyr, naill ai ar gyfer creu rolau neu hyfforddi a datblygu staff presennol, yn gynaliadwy.

Nid yw adroddiad y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) yn cyfeirio'n benodol at Gymru, ond fel y nodwyd uchod, mae llawer o'r argymhellion generig uchod wedi'u targedu at gyflogwyr er mwyn recriwtio, hyfforddi a datblygu eu staff. O ran yr argymhelliad penodol ar strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sgiliau a gallu ar draws ystod o sectorau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a newid hinsawdd, ond ni fyddai'n datblygu strategaeth ar gyfer y sector ecoleg yn unig; bydd yn cymryd golwg fwy cyfannol o'r gweithlu.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu ei thystiolaeth ei hun drwy'r Arolwg o'r Gweithlu Natur yn 2025. O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 745 eu bod mewn cyflogaeth â thâl, gan gefnogi adferiad natur yng Nghymru. Fel y nodwyd uchod, roedden nhw'n cwmpasu ystod eang o rolau, nid ecolegwyr yn unig. Nododd yr arolwg bod staff yn gweithio mewn pob math o sefydliadau, sy'n ymwneud â blaenoriaethau natur a newid hinsawdd, ac yn dangos tystiolaeth o'u datblygiad sgiliau parhaus.

Goblygiadau ariannol – Dim

Morwellt a morfa heli

Argymhelliad 14:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut bydd yn sicrhau cyllid hirdymor i Rhwydwaith Morwellt Cymru er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Morwellt.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli gan gydnabod y buddion sydd ganddynt ar gyfer bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac atafaelu carbon.

Yn 2024-25, gwnaethom ddyfarnu £100,000 ychwanegol o gyllid i gefnogi Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol Rhwydwaith Morwellt Cymru (SNC). Dan arweiniad Prosiect Morwellt, mae Rhwydwaith Morwellt Cymru yn cynnwys ystod o bartneriaid cyflawni gan gynnwys cyrff anllwydoraethol, academyddion a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Phrosiect Morwellt a phartneriaid i fwrw ymlaen â cham 1 y Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol (2025–26), gan osod seiliau llywodraethiant a thystiolaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Phrosiect Morwellt i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cam 2 y Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol. Bydd Cam 2 yn datblygu'r cynllun fel ei fod yn barod i weithredu, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r sylfaen dystiolaeth, ysgogi gwaith adfer dan arweiniad y gymuned mewn safleoedd blaenoriaeth, ymwreiddio morwellt mewn polisïau ac yn ymwybyddiaeth y cyhoedd, a sefydlu dulliau llywodraethiant cynaliadwy a mecanweithiau cyllid hirdymor.

Er mwyn sicrhau bod cynllun cyllido hirdymor yn cael ei gyflawni'n effeithiol, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu tua £70k o gyllid ychwanegol i Brosiect Morwellt yn 2026-27, yn dibynnu ar gadarnhad y gyllideb.

Goblygiadau ariannol - Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn

Argymhelliad 15:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Gweithredu Morfa Heli erbyn diwedd y Senedd hon a sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau fel bod modd i Lywodraeth nesaf Cymru ei weithredu.

Ymateb: Derbyn

Yn 2025-26, drwy ein Cynllun Grant Rhwydwaith MPA, dyfarnwyd £30,000 i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu

Rhwydwaith Morfeydd Heli Cymru, a fydd yn dod ag arbenigwyr ar adfer morfeydd heli ledled Cymru at ei gilydd i sefydlu cynllun gweithredu.

Er mwyn cynnal y momentwm a sicrhau llwybr clir i'w weithredu yn y Senedd nesaf, mae'r Cynllun Gweithredu Morfa Heli yn cynnwys mesurau ar gyfer cynaliadwyedd y rhwydwaith y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol. Bydd hyn yn cynnwys archwilio trefniadau cynnal tymor hir.

Bydd y Cynllun Gweithredu Morfa Heli amlinellol yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Mawrth 2026 a bydd y cyflawniadau allweddol yn cael eu pennu. Bydd dyraniadau cyllid i gefnogi'r cyflawni yn cael eu hystyried pan fydd y cynllun gweithredu wedi'i gwblhau.

Goblygiadau ariannol – Dim

Atodiadau

ATODIAD A

Awdurdod Lleol	Enw'r safle/tomen	Swm y cyllid a gafwyd 25-26	Categori
Blaenau Gwent	Pullinger Level	£57,450.00	B
Blaenau Gwent	Victoria Tip	£45,700.00	B
Blaenau Gwent	Beaufort (South of Frost Road)	£42,050.00	D
Blaenau Gwent	Oliver Jones Crescent, Tredegar	£74,700.00	D
Blaenau Gwent	Pochin Colliery, Tredegar – phase 2	£216,000.00	C
Blaenau Gwent	Brynmawr, Rear of Aneurin Place	£43,200.00	C
Blaenau Gwent	Bedwellty Quarry South	£833,000.00	B
Blaenau Gwent	Henwaun Colliery, Blaina	£15,000.00	C
Blaenau Gwent	Cwmtillery Tip No 577	£110,000.00	A
Blaenau Gwent	Cwmtillery Tip, Abertillery	£5,000.00	D
Pen-y-bont ar Ogwr	Old Rhaglan Tip, Heol-y-cyw. Tip No. 109	£250,000.00	D
Pen-y-bont ar Ogwr	Garw Fechan West Tip A – Tip No. 48	£30,000.00	D
Pen-y-bont ar Ogwr	Tip No. 36/35 Pontycymmer, Garw Valley	£1,300,000.00	C
Pen-y-bont ar Ogwr	Tip No. 64	£10,000.00	C
Pen-y-bont ar Ogwr	Tip No.79	£25,000.00	C
Pen-y-bont ar Ogwr	Tip No.32/33	£30,000.00	C
Pen-y-bont ar Ogwr	Tip No. 122	£20,000.00	C
Caerffili	Bargoed	£83,250.00	C
Caerffili	Parc Cwm Darren, Deri	£615,875.00	B
Caerffili	Fochriw	£208,125.00	C
Caerffili	Pontlottyn Link road, Rhymney	£171,000.00	C
Caerffili	Penallta Road, Penallta	£4,162.50	B
Caerffili	Pen-y-garreg farm lane, Bargoed	£62,437.50	A
Caerffili	Darren Cottages, Deri	£52,031.25	C

Caerffili	Bedllwn Rd, Philipstown	£93,786.91	B
Caerffili	White Rose Way, Elliotstown	£8,325.00	A
